

Epilepsy12 – Hysbysiad Preifatrwydd

Beth yw Epilepsy12?

Mae Epilepsy12 yn brosiect cenedlaethol pwysig. Mae'n ystyried y gofal y mae ysbytai a chlinigau yn ei roi i blant a phobl ifanc ag epilepsi.

Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) yw'r sefydliad a gomisiynodd y prosiect Epilepsy12. Y Bartneriaeth honno, felly, oedd yn dewis pwy fyddai'n cynnal y prosiect. Dewisodd y Bartneriaeth y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant i wneud hynny. Mae'r Bartneriaeth yn helpu i gadw golwg ar y gwaith y mae'r Coleg Brenhinol yn ei wneud.

Pam y mae ysbytai a chlinigau yn cymryd rhan yn Epilepsy12?

Rydym am wella'r modd yr ydym yn gofalu am blant a phobl ifanc ag epilepsi. Gall ysbytai a chlinigau helpu trwy gasglu gwybodaeth bwysig am y gofal y maent yn ei roi i'w cleifion. Bydd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn edrych ar y wybodaeth ac yn dweud wrthym beth yr ydym yn ei wneud yn dda a beth y mae angen i ni ei wneud yn well. Bydd y Coleg Brenhinol hefyd yn dweud wrth ysbytai a chlinigau sut y maent yn perfformio o gymharu ag ysbytai a chlinigau eraill sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

Dylai pob ysbyty a chlinig yng Nghymru a Lloegr sy'n gofalu am blant a phobl ifanc ag epilepsi gymryd rhan yn Epilepsy12.

Pa wybodaeth y mae Epilepsy12 yn ei chasglu?

Mae Epilepsy12 am gael gwybod sut y mae ysbytai a chlinigau yn penderfynu a oes epilepsi ar blant, a sut y maent yn gofalu amdanynt os oes epilepsi arnynt. Mae'n casglu gwybodaeth am bethau megis pa fath o feddyginiaeth y mae plant ag epilepsi yn ei chael a pha feddygon a nyrsys sy'n gofalu amdanynt.

Mae rhestr o'r holl wybodaeth y mae Epilepsy12 yn ei chasglu i'w gweld ar wefan y prosiect, sef: www.rcpch.ac.uk/epilepsy12.

Pa wybodaeth breifat amdanoch y mae Epilepsy12 yn ei chasglu?

Mae Epilepsy12 yn casglu rhywfaint o wybodaeth breifat am gleifion. Mae'r wybodaeth honno'n cynnwys eu henw, eu dyddiad geni, eu rhyw, cod post eu cartref a rhywbeth a

elwir yn rhif “GIG”. Mae rhifau GIG yn cynorthwyo ysbytai a chlinigau i adnabod cleifion. Mae eich ysbyty neu’ch clinig eisoes yn casglu’r wybodaeth hon, felly nid yw’n rhywbeth newydd i Epilepsy12.

Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth breifat?

Mae ysbytai a chlinigau yn cofnodi’r holl wybodaeth y maent yn ei chasglu ar gyfer Epilepsy12 ar wefan ddiogel. Dim ond pobl sy’n gweithio yn yr ysbytai a’r clinigau ac sydd â’r caniatâd priodol sy’n gallu defnyddio’r wefan hon. Ar ôl i’r wybodaeth gael ei rhoi ar y wefan, ni all neb arall ddod o hyd iddi na’i defnyddio oni bai eu bod yn gweithio i’r prosiect Epilepsy12 yn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

Ni fydd y Coleg Brenhinol yn anfon eich gwybodaeth breifat at unrhyw un arall, oni bai ei fod wedi cael caniatâd i wneud hynny. Mae’n bosibl y bydd y Coleg Brenhinol yn cymharu gwybodaeth Epilepsy12 â phrosiectau eraill yng Nghymru a Lloegr, ond bydd angen iddo gael caniatâd i wneud hynny a bydd yn rhaid i’r rheswm dros wneud hynny fod yn gysylltiedig â gwella’r gofal a roddir i blant ag epilepsi.

Ceir cyfreithiau yn yr Undeb Ewropeaidd a’r Deyrnas Unedig sy’n helpu i gadw eich gwybodaeth breifat yn ddiogel. Rhaid i ni ddilyn y cyfreithiau hynny. Nid oes gan wledydd eraill yr un cyfreithiau bob amser, felly ni fyddwn byth yn rhannu eich gwybodaeth breifat â sefydliadau sydd y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd neu’r Deyrnas Unedig ac ni fyddwn byth yn anfon eich gwybodaeth breifat at sefydliadau o’r fath.

Am ba hyd y byddwch yn cadw fy ngwybodaeth bersonol?

Gall y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant gadw eich gwybodaeth tan 31 Mawrth 2021. Os yw am ei chadw’n hwy na hynny, bydd yn rhaid iddo gael caniatâd gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd.

Pam na wnaeth neb ofyn i mi a allent gasglu fy ngwybodaeth bersonol ar gyfer Epilepsy12?

Y rheswm cyfreithiol yw ei bod o fudd i’r cyhoedd bod prosiect Epilepsy12 y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn defnyddio eich data personol, gan y bydd yn helpu i wella’r gofal a roddir i blant a phobl ifanc ag epilepsi. Pe bai’r Coleg Brenhinol yn gofyn am ganiatâd gan bawb, byddai’n cymryd llawer iawn o amser ac mae’n debygol iawn na fyddai pawb yn ymateb. Byddai hynny’n cael effaith niweidiol iawn ar y prosiect.

Fodd bynnag, rydym o ddifrif ynghylch eich preifatrwydd, felly rydym yn cynnig cyfle i chi optio allan os nad ydych yn dymuno cymryd rhan.

Beth os nad wyf am i Epilepsy12 gasglu fy ngwybodaeth bersonol?

Nid oes gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant hawl i gasglu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer Epilepsy12 os nad ydych am iddo wneud hynny.

Os nad ydych am i'r Coleg Brenhinol gasglu eich gwybodaeth bersonol, rhowch wybod i un o'r meddygon neu'r nyrsys yn yr ysbyty hwn sy'n eich helpu gyda'ch epilepsi. Yna, byddan nhw'n rhoi gwybod i'r tîm Epilepsy12 yn y Coleg Brenhinol. Os yw'r Coleg Brenhinol wedi casglu eich gwybodaeth bersonol yn barod ac os nad ydych am iddo ei defnyddio, gallwch ofyn i dîm Epilepsy12 y Coleg Brenhinol beidio â chynnwys eich gwybodaeth, trwy gysylltu ag aelodau'r tîm: epilepsy12@rcpch.ac.uk.

A allaf gael copi o unrhyw wybodaeth bersonol y mae Epilepsy12 wedi'i chasglu amdanaf?

Gallwch, mae modd i chi ofyn am gopi trwy gysylltu â thîm y prosiect Epilepsy12 yn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Os hoffech ofyn am gopi o'ch data personol, cysylltwch ag aelodau'r tîm: epilepsy12@rcpch.ac.uk a byddant yn anfon eich cais ymlaen er mwyn i'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd ymateb iddo, gan mai'r Bartneriaeth sy'n rheoli'r Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Clinigol a Chanlyniadau Cleifion, sy'n cynnwys Epilepsy12.

Pa hawliau eraill sydd gen i?

Mae gennych hawliau penodol ynghylch y wybodaeth bersonol a gaiff ei rhannu â'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant i'w defnyddio yn rhan o archwiliad Epilepsy12. Gallwch ofyn i'r Coleg Brenhinol ddileu'r wybodaeth, ei chadw ond rhoi'r gorau i'w defnyddio ar gyfer yr archwiliad, neu'i newid os ydych o'r farn ei bod yn anghywir.

Os hoffech ofyn am i unrhyw un o'r pethau hyn ddigwydd, cysylltwch ag aelodau'r tîm: epilepsy12@rcpch.ac.uk a byddant yn anfon eich cais ymlaen er mwyn i'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd ymateb iddo.

Dim ond i'r wybodaeth sy'n rhan o archwiliad Epilepsy12 y mae'r hawliau hyn yn berthnasol, ac ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn berthnasol i'ch cofnod gofal iechyd. Os

oes gennych gwestiynau am eich cofnod gofal iechyd, dylech gysylltu â'r bobl a nodir yn yr adran isod.

Â phwy y dylwn i gysylltu os oes angen mwy o wybodaeth arnaf?

Dechreuwch trwy siarad â'r meddygon a'r nyrsys sy'n helpu i ofalu amdanoch o safbwynt eich epilepsi.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y prosiect Epilepsy12, gallwch anfon ebost at dîm y prosiect: epilepsy12@rcpch.ac.uk.

Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd sy'n rheoli'r Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Clinigol a Chanlyniadau Cleifion, sy'n cynnwys Epilepsy12. Gallwch anfon unrhyw gwestiynau am y Rhaglen honno at Swyddog Diogelu Data'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd: communications@hqip.org.uk.

Cyfeiriad post y Bartneriaeth yw:

Data Protection Officer
Healthcare Quality Improvement Partnership
6th Floor, 45 Moorfields
London
EC2Y 9AE

Mae rhai pobl eraill y dylech wybod amdanynt yn gweithio yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r Swyddfa yn sicrhau bod sefydliadau'n dilyn y rheolau cywir wrth gasglu gwybodaeth bersonol am bobl. Gallwch gysylltu â'r Swyddfa os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich hawliau a'r gyfraith ynghylch sut y caiff y data amdanoch ei drin. Gallwch roi gwybod i'r Swyddfa hefyd os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Epilepsy12 wedi casglu neu ddefnyddio eich gwybodaeth.

Cyfeiriad ebost Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: casework@ico.org.uk a rhif y llinell gymorth yw: 0303 123 1113. Cyfeiriad post Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow SK9 5AF